COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 25AIN HYDREF 2016 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W. Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson, Mrs V. Smith Y.H., S. Williams, C. Wood

SWYDDOGION: Mrs C. Earley (Clerc y Dref)

218/16 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr R. Foreman a C. Perry.

219/16 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

220/16 Cofnodion:

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4ydd Hydref 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o Gofnodion Drafft cyfarfod Is-Bwyllgor y Tân Gwyllt a gynhaliwyd ar 11eg Hydref 2016.***

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, gan sôn wrth yr aelodau am yr angen i newid cyflenwyr y tân gwyllt ar fyr rybudd, oherwydd yr anawsterau a gafodd y contractwr blaenorol i gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac i drefnu'r hyfforddiant angenrheidiol i staff yr orsaf dân. Sicrhawyd cyflenwr arall erbyn hyn ac mi fydd yn mynychu'r cyfarfod ar y safle yn ddiweddarach yn yr wythnos gyda swyddogion o'r orsaf dân cyn iddo gyflwyno'r asesiad risg angenrheidiol a dogfennaeth yswiriant.

221/16 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 112/16(c) - Cyngor Tref y Trallwng:

Cyflwynodd y Clerc copi o gyllideb y Cyngor a nifer o sleidiau o'r cyflwyniad a roddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Tref y Trallwng mewn digwyddiad i Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Rhoddwyd syniad o'r amrediad o wasanaethau a gyflenwir. Fe nodwyd bod datganoli gwasanaethau a throsglwyddo asedau yn digwydd ar draws Cymru, ond roedd rhai siroedd yn gweithredu'n gyflymach nag eraill. Efallai mai maint a natur wledig Powys yw un rheswm bod datganoli wedi digwydd yn gyflymach yna, ynghyd â pharodrwydd y Cyngor Tref i gynyddu ei archebiant i gyflenwi mwy o wasanaethau'n lleol. Dywedodd y Cynghorydd L. Griffiths bod Cyngor Tref y Trallwng wedi ymgynghori

â'r trigolion lleol ac roeddynt yn hapus i dalu archebiant uwch er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau lleol, megis gwybodaeth i dwristiaid a thoiledau cyhoeddus. Roeddynt yn derbyn grantiau hefyd oddi wrth Gyngor Sir Powys tuag at y costau.

Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau ei bod yn gwneud pob ymdrech i geisio ail-gynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cyngor Bwrdeistref Siriol Conwy a'i gynghorau tref a chymuned. Roedd angen cael gwell dealltwriaeth am unrhyw newidiadau am y cyflwyniad o wasanaethau yn y dyfodol a all cael effaith ar ein cymunedau lleol. Mae cyfathrebiad rheolaidd yn hanfodol pwysig os ydym i gael amser i ystyried gwahanol fodelau o gyflwyno gwasanaethau er mwyn rhwystro toriadau i wasanaethau lleol yn y dyfodol. Mynegwyd pryder hefyd bod llawer o bobl yn gymwys i gael eu heithrio o'r dreth gyngor ac na fyddant yn oedi cyn cefnogi cynnydd yn yr archebiant, tra nad oedd yn cael effaith arnynt.

Penderfynwyd cael a nodi'r wybodaeth am wasanaethau yn y Trallwng a disgwyl am ddiweddariad oddi wrth y Clerc parthed gwella cyfathrebiad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

(b) Cofnod 112/16(c) - Cynhadledd Un Llais Cymru:

Fe nodwyd nad oedd y Cynghorydd S. Williams wedi gallu bod yn bresennol ac fe benodwyd y Cynghorydd Roy i gymryd ei le ac fe ddaw adrodd i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid yn y man.

(c) Cofnod 196/16 - Promenâd Rhos:

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, ymateb oddi wrth Mr Vic Turner, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn gwrthod cais y Cyngor am gamera TCC y gellir ei adleoli i'w ddefnyddio ar y Promenâd yn Rhos er mwyn monitro diogelwch cerddwyr.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu ag Ystafell Rheoli TCC i ofyn a fyddant yn fodlon i osod camera y gellir ei adleoli yn yr ardal er mwyn monitro nifer ag amlder achosion agos a man ddigwyddiadau yn ymwneud â cherddwyr ar y palmant ger ardal y traeth / harbwr.

222/16 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

a. Rheoliadau Traffig Dros Dro:
- **i** System Un Ffordd ar y Promenâd ym Mae Colwyn hyd at 30^{ain} Tachwedd.
- **ii** Ffordd Llanrwst, o'i chyffordd a Victoria Park i Oak Drive er mwyn gosod arwynebedd newydd.

b. Cymunedau yn Gyntaf: Hysbysiad bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a'r gogwydd i ddiddymu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a chreu dull arall ond bydd yna gyfnod o ymgynghori cyn gwneud penderfyniad.

c. Cais am lythyr o gefnogaeth oddi wrth Venue Cymru yn ei chais am gyllid oddi wrth Gyngor y Celfyddydau er mwyn gallu parhau gyda'i phrosiectau ymestyn allan i'r gymuned, yn cynnwys Dyddiau Ysbrydoli a chysylltiadau addysgiadol.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc anfon llythyr o gefnogaeth ar ran y Cyngor.

ch. Ymgynghoriad ar y bwriad i greu parthau 20 m.y.a. y tu allan i Ysgolion:

Penderfynwyd cefnogi a chroesawu'r bwriad i greu parthau 20 m.y.a. y tu allan i ysgolion lleol.

d. Grŵp Ymgynghori Promenad Bae Colwyn:

Cael hysbysiad am gyfarfod sydd i'w gynnal ar 7fed Tachwedd.

223/16 <u>Cofeb Rhyfel Bae Colwyn:</u>

a. Fe nodwyd bydd Gwasanaeth y Cofio am gael ei gynnal eleni am 11am ar 11eg Tachwedd ac fe gynhelir Gorymdaith Sul y Cofio a'r Gwasanaeth am 10.30am ar ddydd Sul, 13eg Tachwedd.

Fe nodwyd ymhellach bydd y manylion am y Gwasanaeth yn Hen Golwyn yn cael eu hanfon at gynrychiolwyr y wardiau lleol; yn y man.

b. Cael hysbysiad am wasanaeth ychwanegol i gofio am gyfraniad merched yn ymdrech y rhyfel yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

224/16 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

i. Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 12.10.16
ii Strategaeth Pum Mlynedd Hosbis Sant Cyndeyrn - 2016-2021

225/16 <u>Cynllunio</u>:

a. Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed yn ddiweddar gan GBSC.

c. Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am Wrandawiad Apêl parthed cais O/42812

ch Rhoddodd y Cynghorwyr N. Bastow a C. Wood adroddiad byr ar lafar am yr ymweliad safle a gynhaliwyd parthed y maes chwarae 3G arfaethedig ym Mharc Eirias. Fe nodwyd bod y Pwyllgor Cynllunio wedi cymeradwyo'r cais.

d. Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, ymgynghoriad cyn cyflwyno cais parthed safle Gwesty'r Imperial.

Croesawyd y cais yn gyffredinol gan yr Aelodau, a fyddai efallai gobeithio yn diogelu adeilad lleol pwysig oedd am gael ei ddefnyddio unwaith eto, ynghyd a'r bwriad i gyflwyno man gwerthu ychwanegol ar y llawr gwaelod a fydd yn dod a mwy o ymwelwyr i ganol y dref

dd **<u>Trwyddedau:</u>**

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am unrhyw geisiadau am drwyddedau a gofrestrwyd gan GBS Conwy yn ystod y tair wythnos diwethaf.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.15 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 25TH OCTOBER 2016, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: Cllr N Bastow, Chairman
Cllrs W Bagnall, Mrs G Baker, Mrs L Edwards, Mrs L Griffiths,
Mrs M Jones, J Pearson, Mrs V Smith JP, S Williams, C Wood

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

218/16 Apologies for Absence

Apologies for absence were received from Cllrs: F Foreman and C Perry.

219/16 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

220/16 Minutes:

a. ***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 4th October 2016.***

b. ***Resolved to receive a copy of the Draft Minutes of the Bonfire Sub-Committee meeting held on 11th October.***

The Clerk gave a brief verbal report, advising members of the need to change firework suppliers at short notice, due to the previous contractor having problems securing public liability insurance and arranging required training for fire station staff. An alternative supplier had now been secured and would be attending a site meeting later this week with the fire service, prior to providing the necessary risk assessment and insurance documentation.

221/16 Matters Arising from Previous Minutes

a. Min. 112/16(c) – Welshpool Town Council:

The Clerk submitted a copy of the Council's budget and several of the slides from a recent presentation given by the Welshpool Town Clerk at a SLCC event, giving an indication of the range of services delivered. It was noted that devolution of services and asset transfer is happening across Wales, but has progressed quicker in some counties than in others. The large and rural nature of Powys may be one reason why devolution has happened more quickly there, together with the willingness of the Town Council to increase its precept to provide more services locally. Cllr L

Griffiths informed members that Welshpool had consulted with local residents and they were happy to pay a higher precept to maintain and improve local services, such as the tourist information and public conveniences. Grants were also being received from Powys CC towards the costs involved.

The Clerk advised members that she was making efforts to try and rekindle regular meetings between Conwy CBC and its town and community councils, to keep us better informed about any future changes to service delivery which may impact on our local communities. Regular communication is vitally important if we are to have time to consider alternative delivery models to prevent future cuts to local services. Concern was also expressed that many people qualify for council tax exemptions and would have no hesitation supporting increases in the precept, whilst it didn't affect them.

Resolved to receive and note the information about services in Welshpool and await an update from the Clerk regarding improving communication with Conwy CBC.

b. Min 112/16(c) – One Voice Wales Conference:

It was noted that Cllr S Williams was not able to attend and that Cllr Roy attended in his place and will be reporting back to the Policy & Finance Committee.

c. Min. 196/16 – Rhos Promenade:

The Clerk submitted, for consideration, a response from Mr Vic Turner, CCBC declining the Council's request for a re-deployable CCTV camera to be used at Rhos Promenade to monitor the safety of pedestrians.

Resolved to request that the Clerk contacts the CCTV Control Room to enquire if they would be willing to place a re-deployable camera in the area to monitor the number and frequency of near misses and minor incidents involving pedestrians on the footpath alongside the beach/harbour area.

222/16 <u>Conwy CBC</u>:

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence from CCBC:

a. Temporary Traffic Regulations:
- **i.** A one way system on Colwyn Bay Promenade until 30th November.
- **ii.** Llanrwst Road, from the junction with Victoria Park to Oak Drive for carriageway resurfacing (5/12 to 8/12).

b. Communities First: Notification that the Cabinet Secretary for Communities and Children is minded to phase out the Communities First

programme and establish a new approach, but that a period of engagement will take place before any decision is reached.

c. Request for letter of support from Venue Cymru, which is seeking Arts Council for Wales funding to continue some of its community outreach projects, including Inspire Days and educational links.

Resolved to authorise the Clerk to send a letter of support on behalf of the Council.

d. Consultation on Proposed 20 mph zones outside schools:

Resolved to support and welcome the proposals for 20mph zones outside several of our local schools.

e. Colwyn Bay Promenade Consultative Group:

Notice of next meeting, to be held on 7th November.

223/16 <u>Colwyn Bay War Memorial:</u>

a. It was noted that this year's Service of Remembrance will take place at 11am on 11th November and the Remembrance Sunday parade and Service will take place at 10:30am on Sunday 13th November.

It was further noted that details of the Service in Old Colwyn will be forwarded to local ward members in due course.

b. To receive notice of an additional service to remember the contributions of women to the war effort during the First World War.

224/16 <u>Other Correspondence:</u>

It was noted that the following item(s) of correspondence are available on request from the Clerk:

a. Minutes of the OC(E)RA meeting, held on 12.10.16.
b. St Kentigern Hospice 5 Year Strategy – 2016-2021

225/16 <u>Planning:</u>

a. The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b. The Clerk submitted, for information, a copy of the Planning Decisions recently issued by CCBC.

c. The Clerk submitted notice of an Appeal Hearing in respect of application 0/42812.

d. Cllrs N Bastow and C Wood gave a brief verbal report on the site visit held in respect of the proposed 3G pitch in Eirias Park. It was noted that the application had been approved by the Planning Committee.

e. The Clerk submitted, for consideration, a pre-application consultation in respect of the Imperial Hotel site.

Members generally welcomed the application, which it was felt would protect and bring back into use a prominent local building, along with providing additional ground floor retail space and generating greater footfall in the town centre.

f. **Licensing:**

The Clerk submitted notice of any licensing applications registered by CCBC over the past three weeks.

The meeting closed at 7:15 p.m.

…… Chairman